Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

13/02/26

**Annwyl Rieni,**

**GWEITHIWN A GWÊN YN SŴN Y GYMRAEG**

Wel sôn am hanner tymor prysur! Hoffwn ddiolch yn ddiffuant am eich cefnogaeth i ni fel ysgol yn ystod y tymor. Mae wedi bod yn eithriadol o brysur rhwng gweithgareddau ysgol, ymarferion yr Urdd, cystadlaethau chwaraeon, prynhawniau agored, heb son am ymwelwyr eraill i'r ysgol! Hoffwn ddymuno'n dda i bawb dros hanner tymor- mwynhewch seibiant haeddiannol efo'ch teuluoedd. Hei lwc welwn arwyddion y gwanwyn yn nesáu, a da gweld y dydd yn ymestyn 'rwy gam geiliog' fesul dydd. Dyma grynhoi ychydig  o weithgareddau'r wythnos.

**Prynhawn Agored yr Uned dan 12**- Diolch yn fawr i'r holl rieni gefnogodd ein prynhawn agored ar brynhawn dydd Iau. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael rhannu efo profiadau yn gysylltiedig â'r gwaith thema'r 'Chwe Degau Chwyldroadol'. Diolch am gefnogi.

**Dydd Miwsig Cymru**- Mwynhaodd y plant a'r staff gig arbennig gan TewTewTenau yn yr ysgol i ddathlu dydd Miwsig Cymru heddiw. Buodd y plant hefyd yn pleidleisio am eu hoff gan bop Cymraeg cyfoes. Y gan enillodd y bleidlais eleni oedd 'Pwy sy'n galw? Gan Dom a Lloyd - Ewch ati wrando adref!

**Cwis Llyfrau / Gornest Ddarllen-** Gwych oedd gweld gymaint o ddiddordeb a thimau yn cystadlu yn yr ornest ddarllen sirol hanner tymor yma. Roedd 10 tim yn cystadlu yn y rownd ysgol gennym- hyd at 50 o blant! Anhygoel! Pob lwc i'n timau Blwyddyn 3  4  a 5 a 6 fydd yn mynd ymlaen i'r rownd sirol nesaf. Llawer o ddiolch i'r staff am baratoi'r grwpiau i gystadlu. Cafwyd adborth hynod bositif gan y beirniaid ddaeth i'r ysgol ar ddechrau'r wythnos.

**Hanner Tymor-** Mae'r ysgol yn cau heddiw ar gyfer gwyliau'r hanner tymor. Bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Llun, Chwefror 23ain.

****Dyddiadau i'ch dyddiaduron****

*Chwef 28ain- Eisteddfod Cylch Rhuthun- Ysgol Brynhyfryd
*Mawrth 2il- Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi – Gall blant wisgo gwisg Gymreig / Coch, gwyn a gwyrdd
*Mawrth 5ed- Dathliadau Diwrnod y Llyfr- Gall blant wisgo fel cymeriad allan o lyfr.

**Arwyddair Ysgol ar englyn-**  Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Mr Llŷr Gwyn Lewis, sy'n rhiant yma yn Ysgol Pen Barras am roi ein harwyddair 'Gweithiwn a Gwen yn Sŵn y Gymraeg' mewn cywair cyfoes ac amserol iawn. Rydym fel staff oll wedi dotio ar yr englyn ac yn awyddus ei rannu efo rieni a chymuned Ysgol Pen Barras. Amserol ac addas dros ben. Diolch iddo.

***Gyda gwên, gwnawn yr heniaith- yn newydd,***
***yn ieuanc yr eilwaith.***
***Dysgu, hybu, creu gobaith:***
***mae'r Gymraeg yma ar waith.***

Mwynhewch yr hanner tymor.

Yn gywir,
**Dyfan Phillips**
PENNAETH
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*13/02/26*
***Dear Parents,***

*Well, what a busy half term it has been! I would like to sincerely thank you for your support for us as a school throughout the term. It has been exceptionally busy with school activities, Urdd rehearsals, sports competitions, open afternoons, not to mention other visitors to the school! I would like to wish everyone well for the half-term break – enjoy a well-deserved rest with your families. Thankfully we are seeing signs of spring approaching, and it's good to see the days lengthening little by little. Here is a summary of some of this week's activities.*

***Year 5 and 6 Open Afternoon-*** *A big thank you to all the parents who supported our open afternoon on Thursday. The children thoroughly enjoyed sharing their experiences linked to the theme work on the 'The Revolutionary 1960s'. Thank you for your support.*

***Welsh Music Day (Dydd Miwsig Cymru)-*** *Pupils and staff enjoyed a special gig by TewTewTenau in school today to celebrate Welsh Music Day. The children also voted for their favourite contemporary Welsh pop song. The song that won this year was* 'Pwy sy'n galw? Gan Dom a Lloyd - *You can stream the song on varipous digital platforms.*

***Book Quiz / Reading Competition-*** *It was wonderful to see so much interest and so many teams competing in this half-term's county reading competition. We had 10 teams competing in the school round – up to 50 children! Incredible! Good luck to our Year 3–4 and Year 5–6 teams who will go on to the next county round. Many thanks to the staff for preparing the groups to compete. We received extremely positive feedback from the judges who visited the school at the start of the week.*

***Half Term-*** *Ysgol Pen Barras closes today for the half-term holiday. School will reopen for everyone on Monday, February 23rd.*

*****Dates for your diaries*****

- *Feb 28th – Ruthin Area Eisteddfod – Ysgol Brynhyfryd*
- *March 2nd – St David's Day Celebrations – Children may wear Welsh costume / red, white and green*
- *March 5th – World Book Day Celebrations – Children may dress as a character from a book.*

*Enjoy the half term holiday.*

*Kind regards,*
***Dyfan Phillips***
*HEAD TEACHER*
*Ysgol Pen Barras*